Diploma Programme
Programme du diplôme
Programa del Diploma

# Welsh A: literature – Standard level – Paper 2
# Gallois A : littérature – Niveau moyen – Épreuve 2
# Galés A: literatura – Nivel medio – Prueba 2

Thursday 5 May 2016 (afternoon)
Jeudi 5 mai 2016 (après-midi)
Jueves 5 de mayo de 2016 (tarde)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

## Instructions to candidates

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied and compare and contrast these works in response to the question. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.
- You are not permitted to bring copies of the works you have studied into the examination room.
- The maximum mark for this examination paper is **[25 marks]**.

## Instructions destinées aux candidats

- N’ouvrez pas cette épreuve avant d’y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. En basant votre réponse sur au moins deux des œuvres de la troisième partie que vous avez étudiées, vous devez comparer et opposer ces œuvres dans le cadre du sujet. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la troisième partie n’obtiendront pas une note élevée.
- Vous n’êtes pas autorisé(e) à apporter des exemplaires des œuvres que vous avez étudiées dans la salle d’examen.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d’examen est de **[25 points]**.

## Instrucciones para los alumnos

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Conteste una sola pregunta de redacción. Base su respuesta en al menos dos de las obras estudiadas de la Parte 3, comparándolas y contrastándolas en relación con la pregunta. Las respuestas que no se basen en al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán una puntuación alta.
- No está permitido traer copias de las obras estudiadas a la sala de examen.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es **[25 puntos]**.

3 pages/páginas

2216 – 0228
© International Baccalaureate Organization 2016

International Baccalaureate
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

https://xtremepape.rs/

Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r cwestiynau hyn yn unig. Rhaid ichi seilio eich ateb ar **o leiaf ddau** o weithiau rhan 3 a astudiwyd gennych a **chymharwch a chyferbyniwch** y gweithiau hynny wrth ateb y cwestiwn. Ni roddir marciau uchel am atebion **nad** ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o weithiau rhan 3.

**Barddoniaeth**

**1.** Bu beirdd erioed yn hoff o ddatgan galar a hiraeth am bersonau neu bethau a gollwyd. Trafodwch yn fyr y defnydd a wna o leiaf ddau fardd yr astudioch eu gwaith o'r thema hon gan roddi sylw i'r confensiynau llenyddol a ddefnyddir ganddynt i gyfleu natur eu hiraeth a'u galar.

**2.** Mae geiriau mewn cerddi yn aml yn magu ystyr a dyfnder arbennig. I ba raddau y mae gweithiau o leiaf ddau fardd gwahanol a astudioch yn cynnwys geirfa sydd yn arddangos dyfnder neu ystyr symbolaidd nas gwelir ar y wyneb?

**3.** "Ffordd o adnabod profiadau yn eu hamrywiol agweddau gwrthgyferbyniol yw barddoniaeth." Pa dechnegau y mae dau fardd y darllenoch eu gweithiau wedi eu defnyddio i roi mynegiant i agweddau gwrthgyferbyniol yn eu gweithiau?

**Drama**

**4.** Mae llwyddiant drama yn ddibynnol ar ba mor gredadwy yw'r prif gymeriadau. Gan gyfeirio at o leiaf ddwy ddrama a astudiwyd gennych, olrheiniwch i ba raddau y mae'r dramâu hynny'n cadarnhau gwirionedd y gosodiad hwn.

**5.** Pa ddyfeisiadau dramatig a ddefnyddir gan ddau ddramodydd gwahanol at greu awyrgylch arbennig?

**6.** Ystyriwch y dulliau a ddefnyddir gan ddramodwyr i newid y tempo a hynny'n aml er mwyn creu effeithiau dramatig. Dylid trafod o leiaf ddwy ddrama a astudiwyd gennych.

https://xtremepape.rs/

**Nofel**

**7.** Y mae ffraethineb neu ddonioldeb a dyfeisiadau digrif eraill yn gallu ychwanegu dimensiwn newydd i'r hyn y ceisia awdur ei fynegi. Olrheiniwch effeithiau'r dyfeisiadau hyn ar fynegiant a syniadau yn o leiaf ddwy nofel a astudioch.

**8.** Mae gormes yn rhan bwysig o thema amryw nofelau Cymraeg: gormes diwylliant, crefydd, iaith, cymdeithas, ac yn y blaen. Trafodwch ym mha ffordd y mae o leiaf ddau awdur gwahanol yn mynd i'r afael â gormes o ryw fath yn ei gweithiau, a pha mor llwyddiannus ydynt.

**9.** Does wahaniaeth os ydyw nofelydd yn brifo ac yn tramgwyddo'r darllenydd cyn belled â'i fod yn ddiffuant ac yn ei argyhoeddi. Gan gyfeirio at weithiau gan o leiaf ddau nofelydd a astudiwyd gennych, cymharwch y technegau a ddefnyddir gan nofelwyr i brocio'r darllenydd a'i argyhoeddi eu bod yn ddiffuant.

**Storïau Byrion**

**10.** Sut ac ym mha ffyrdd y mae gwrthrychau dibwys yn datblygu maes o law i fod yn wrthrychau allweddol ac yn symbolau o bwys yng ngweithiau o leiaf ddau awdur yr astudioch eu gweithiau?

**11.** Gan gyfeirio at waith o leiaf ddau awdur a astudiwyd gennych, pa swyddogaeth sydd gan yr anesboniadwy neu'r annisgwyl i'w chwarae yn niweddglo'r storïau?

**12.** "Mae stori fer yn hawlio crynoder a chyfyngder." A gytunwch â'r farn hon ac i ba raddau y caiff ei hadlewyrchu mewn o leiaf ddwy stori a ddarllenwyd gennych?

**Hunangofiant a Chofiant**

**13.** Un o'r pethau sydd yn diddori darllenydd cofiant a hunangofiant yw'r tensiwn sydd ynddynt rhwng y bywyd preifat a'r bywyd cyhoeddus. Sut ac i ba raddau y mae dau o'r gweithiau a astudiwyd gennych yn mynegi'r tensiwn hwn?

**14.** Trafodwch ddefnydd o leiaf ddau awdur yr astudioch ei gwaith o iaith emosiynol er mwyn arghoeddi'r darllenydd.

**15.** Bwriad cofiant a hunangofiant yw rhoi pleser a boddhad i'r darllenydd ac nid ei addysgu. I ba raddau y cytunwch â'r gosodiad hwn? Mae'n ofynnol i chi gynnwys dadansoddiad o gonfensiynau llenyddol wrth gymharu o leiaf ddau waith a astudiwyd gennych.

https://xtremepape.rs/